

## **CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 7 Hydref 2014 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams a/ac Eryl Williams.

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Swyddog Monitro (RGW), Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio (AS), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Rhys Hughes, Margaret McCarroll, Win Mullen-James, Dewi Owens, Cheryl Williams a/ac Huw Williams.

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganodd unrhyw Aelod gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ar gyfer cyfnod rhwng 7 Medi 2014 a 28 Medi 2014 wedi'u cylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** - *derbyn y rhestr o ymrwymadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Medi 2014.

Cywirdeb:-

6. Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – eglurodd y Cynghorydd S.A. Davies ei fod wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd o orfod cyfiawnhau toriadau arfaethedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Materion yn codi:-

9. Diwygio Llywodraeth Leol - Ymatebodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gais gan y Cynghorydd M.LI. Davies a chadarnhaodd y gellid cofnodi manylion pleidleisio yn y cofnodion.

12. Cyllideb 2015/16 - 2016/17 - Dywedodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts bod yr arddull a fabwysiadwyd ar gyfer y cofnodion ddim bob amser yn adlewyrchu cyfraniad Aelodau unigol at y trafodaethau.

**PENDERFYNWYD** – *yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Medi 2014 fel cofnod cywir.*

## 6 AILDDATBLYGU CANOLFAN NOVA

Roedd copi o adroddiad y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden, a oedd yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i fwrw ymlae,n ag ailddatblygu Canolfan Nova Prestatyn, wedi ei gylchredeg cyn y cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Gwasanaethau Hamdden Alliance i'r cyfarfod.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint cyflwynodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yr adroddiad. Eglurodd fod y Cabinet wedi ystyried canfyddiadau'r adolygiad diwydrwydd dyladwy i Hamdden Clwyd Cyf ym mis Ionawr 2014 gan ddod i'r casgliad ei fod yn ormod o risg i'r Cyngor gymryd y cwmni drosodd. Penderfynwyd rhoi'r gorau i gyllido Hamdden Clwyd o 1 Ebrill 2014 ymlaen oherwydd pryderon ynghylch ansawdd a lefel y gwasanaeth a ddarperir. O ganlyniad i hyn, rhoddodd y cwmni'r gorau i fasnachu ar unwaith.

Ym mis Mawrth 2014 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn amlinellu'r argymhellion a oedd yn codi o arfarniad manwl o gyflwr yr adeiladau a'r dadansoddiad

manteision cost mewn perthynas â'r gwahanol opsiynau rheoli dros dro ar gyfer y cyfleusterau; tra bod yr achos busnes ar gyfer cynnig hamdden llawer gwell ar yr arfordir yn cael ei ddatblygu ymhellach. Cytunodd y Cabinet i argymhell bod Canolfan Nova yn aros ar gau hyd nes y cytunir ar gynigion ailddatblygu Gwasanaethau Hamdden Alliance ym mis Mai 2014.

Comisiynwyd ymarfer dichonolrwydd ac achos busnes amlinellol ar gyfer ailddatblygu'r ganolfan i gael ei ystyried gan y Grŵp Buddsoddi Strategol, ac mae manylion y broses wedi ei darparu. Cyflwynwyd yr astudiaeth dichonolrwydd a'r achos busnes amlinellol i'r Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Cabinet ym mis Mehefin 2014 er mwyn sicrhau cyllid i symud y prosiect yn ei flaen at y cam dylunio manwl. Cymeradwywyd y cynnig i symud ymlaen i'r cam nesaf, gan ddyfarnu £108 mil ar gyfer y cam dylunio manwl i gael sicrwydd cost ar gyfer y prosiect. Mewn partneriaeth â Sir Ddinbych, cwblhaodd Gwasanaethau Hamdden Alliance pob arolwg manwl gan ddarparu costau manwl i'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn seiliedig ar gymysgedd o gyfleusterau, fel y cytunwyd yn y briff dichonoldeb gwreiddiol (gweler Atodiad 1). Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r cyfleuster yn hunangynhaliol trwy wasanaethu ei gostau ynni ei hun.

Mae'r arolygon manwl wedi nodi nifer o faterion y mae angen eu datrys er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr adeilad ar gyfer cyfnod yr achos busnes, yn seiliedig ar yr incwm posibl, ac ymrwymiad ariannol y Cyngor. Mae angen offer mecanyddol a thrydanol newydd ac mae arolwg to wedi amlygu nifer o broblemau. Mae'r cynnydd yn y costau o'r cam amlinellol i'r cam dylunio manwl yn cynrychioli cynnydd o 15% mewn costau datblygu cyffredinol. Byddai modd cynnal y cynnydd o fewn yr amlen fforddiadwyedd gyffredinol dros gyfnod yr achos busnes.

Eglurwyd bod y datblygiad yn elfen bwysig o weledigaeth y Cyngor ar gyfer gwell hamdden a chynnig twristiaeth ar hyd yr arfordir, fel y nodir yn y Strategaeth Uchelgais Economaidd. Mae Cynllun MAWR 2011 - 2014 yn ceisio cyrraedd nifer o ganlyniadau, yn arbennig o ran dymuniad y Cyngor i annog pobl Sir Ddinbych i fyw bywydau iach.

Y costau cyn y cam dylunio manwl oedd oddeutu £3.6 miliwn. Mae'r costau diwygiedig, oherwydd y to a'r gofynion mecanyddol a thrydanol, wedi cynyddu i £4,217,001. Mae swyddogion a thîm prosiect Hamdden Alliance wedi bod trwy 'broses gwerth peirianeg' fanwl i adolygu'r costau a'r fanyleb i leihau'r costau cymaint â phosibl heb beryglu'r datblygiad cyfan. Yn yr achos busnes gwreiddiol nodwyd bod angen cyfanswm o £256,311 i wasanaethu'r benthyca cyffredinol sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad. O ganlyniad i'r cynnydd yn y cyfalaf sydd ei angen ar gyfer y datblygiad, mae'r costau benthyca darbodus wedi cynyddu i daliad blyneddol o £284,680, sy'n cynrychioli cynnydd o £28,369 y flwyddyn. Cafodd hyn ei gyfyngu o fewn fforddiadwyedd y prosiect a'i ystyried a'i graffu'n llawn gan y Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Bwrdd Cyfleusterau Arfordirol. Cadarnhaodd Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden fod y prosiect yn awr wedi cael sicrwydd cost ac y byddai'n rhaid i Hamdden Alliance gwrdd ag unrhyw risg yn sgil newid y cynllun.

Mae rhagolwg cyllideb wedi ei gynnwys yn Atodiad 2, gyda sylwebaeth ariannol yn Atodiad 3 a datganiad ariannol llawn gan ein Rheolwr Cyllid a Sicrwydd ynghlwm wrth Atodiad 4. Mae'r rhagolwg cyllideb yn dangos colled weithredol ym mlwyddyn 1 o £68,223, colled o £6,447 yn yr ail flwyddyn a gwarged o £11,785 yn y drydedd flwyddyn. Dros gyfnod o bum mlynedd byddai'r Ganolfan wedi gwneud colled weithredol o £23,440, yn ychwanegol at yr adnoddau sydd ar gael i redeg y cyfleuster, ond mae hyn yn cymryd yn ganiataol ein bod ni'n gwireddu 70% o'r galw diddigwydd cyffredinol.

Os nad yw'r datblygiad yn mynd rhagddo, mae'r adeilad yn debygol o aros yn ei gyflwr presennol hyd nes caiff dewisiadau pellach eu harchwilio. Byddai'r Ganolfan yn costio oddeutu £71,000 y flwyddyn i'w gadw ar gau. Mae hyn yn cynnwys Trethi Annomestig Cenedlaethol, costau diogelwch, gwaith trwsio a chostau cynnal a chadw, fel y nodir yn yr opsiynau yn Atodiad 5 (tudalen 6 o'r achos busnes). Os bydd yr eiddo yn cael ei adael yn ei gyflwr presennol byddai'n costio oddeutu £355,000 dros y pum mlynedd nesaf. Byddai dymchwel yr adeilad yn costio oddeutu £1 miliwn, ac mae crynodeb manwl wedi ei gynnwys.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, eglurwyd bod yr achos busnes, Atodiad 5, wedi ei graffu arno a'i gymeradwyo gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Roedd y Grŵp yn argymhell y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â datblygiad y Ganolfan Nova. Ymgynghorwyd â Chyngor Tref Prestatyn, y Bwrdd Arfordirol a Grŵp Aelodau Ardal Prestatyn drwy gydol y camau datblygu. Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o ran manylder y broses ymgynghori a gynhaliwyd. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm wrth Atodiad 6.

Os caiff ei gymeradwyo, byddai cost adeiladu'r cynllun yn sefydlog, fel y nodwyd yn y fframwaith partner datblygu. Bydd unrhyw wyriad oddi wrth y swm cyfalaf a gytunwyd yn cael ei dalu gan Wasanaethau Hamdden Alliance, oni bai bod y costau yn ganlyniad i unrhyw gais arall gan y Cyngor yn ychwanegol at y cwmpas gwaith a gytunwyd arno. Cadarnhawyd bod yr opsiynau wedi eu trafod gyda'r Grŵp Buddsoddi Strategol, ac wrth ystyried sut y bydd y risg yn cael ei reoli, maent wedi cytuno i argymhell datblygu, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

Canmolodd y Cynghorydd H.L.I. Jones y gwaith a wnaed gyda Hamdden Alliance. Eglurodd fod Canolfan Nova yn un o dri phrosiect ailddatblygu yn yr ardal. Y prosiect cyntaf yw'r Ganolfan Fowlio ym Mhrestatyn, sydd wedi ei gwblhau'n ddiwedddara, a'r trydydd prosiect yw prosiect yr Heulfan, y Rhyl. Cyfeiriodd y Cynghorydd H.H. Evans at y broses graffu fanwl a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r prosiect, a oedd wedi ystyried pob agwedd posibl ar y cynllun. Roedd yn teimlo bod Sir Ddinbych wedi arwain y ffordd yng Nghymru drwy hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau hamdden, a allai yn ei dro leihau'r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd C.H. Williams at y posibilrwydd o golli cae chwarae Ysgol Gynradd Llandrillo. Dywedodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden bod y strategaeth hamdden yn glir ynghylch pentrefi bychain ac ardaloedd gwledig yn elwa o fuddsoddiad. Esboniodd, oherwydd ffigyrau poblogaeth a'r anhawster wrth gynyddu hyfywedd masnachol, y byddai'n rhaid ariannu rhai ardaloedd o'r Sir gan feysydd gwasanaeth lle mae disgwyliadau wedi eu rhagori.

Yn dilyn y drafodaeth a ddilynwyd, darparodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Byddai deiliad prydles Parc Hwyl Traeth y Ffrith yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau sy'n ymwneud â datblygu'r Ganolfan Nova a datblygu'r tir rhwng y Ffrith a'r Ganolfan Fowlio.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd posibl mewn cyflogaeth yn yr ardal a'r hwb i'r economi leol a'r diwydiant twristiaeth ar draws yr ardal arfordirol.
- Darparwyd manylion ynglŷn â'r amserlen adeiladu.
- Amlygwyd pwysigrwydd gwasanaethau hamdden i'r Rhaglen Gofal Cymdeithasol.
- O ran darparu sleid ddŵr yng Nghanolfan Nova, yn ystod arfarniad y cynnig hamdden a phan ystyriwyd y cyfleusterau posibl ar hyd yr arfordir, cytunwyd y byddai'n well lleoli gweithgareddau dŵr hwyliog yn y Rhyl, gyda'r cyfleuster ym Mhrestatyn yn canolbwyntio mwy ar nofio ffurfiol.
- Darparodd Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden fanylion y fframwaith a'r contract gyda Hamdden Alliance. Cadarnhaodd fod Sir Ddinbych wedi elwa ar fframwaith proffesiynol o wasanaethau sy'n rhoi gwybod i'r Cyngor am y gwasanaethau sydd ar gael a gofynion y farchnad.
- Darparodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden amlinelliad o'r consesiynau a gynigir o ran yr unedau manwerthu. Eglurodd mai'r nod oedd marchnata Canolfan Nova fel cyrchfan ar gyfer ymwelwyr i Brestatyn a'r ardal arfordirol. Cadarnhawyd bod penderfynu ar y dewis gorau posibl o ran y cynnig bwyd a diod, trwy'r cyfleuster bwyty, yn hanfodol i lwyddiant y Ganolfan.
- Nid yw gwasanaeth dwyieithog wedi ei ddarparu yn flaenorol gan fod y cyfleuster wedi ei weithredu gan gwmni annibynnol hyd braich. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn y dyfodol wedi cael sylw. Cadarnhaodd Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y byddai staff Cymraeg yn cael eu cyflogi lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r angen i benodi staff achrededig cyfyngu hyn.
- Mewn ymateb i gais gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y gellir darparu gwerthusiad blynyddol ar gynnydd y Ganolfan Nova, yn erbyn y Cynllun Gwella a bennwyd ar gyfer y Strategaeth Hamdden.
- Mae'r angen i ddefnyddio gweithwyr a chyflenwyr lleol lle bo modd wedi ei nodi yn fframwaith y contract gyda Hamdden Alliance.
- Darparodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden fanylion y mesurau amddiffyn rhag llifogydd a stormydd ar gyfer yr adeilad, a oedd yn cynnwys gwelliannau i'r promenâd a'r morglawdd.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i Bennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden, ei staff a Gwasanaethau Hamdden Alliance, am y gwaith ardderchog a wnaed mewn perthynas â'r prosiect yn ystod y graddfeydd amser cyfyngedig.

Yn dilyn trafodaeth bellach ac o'i roi i bleidlais, cytunwyd â'r argymhelliad yn yr adroddiad:-

38 o blaid ac 1 yn ymatal.

**PENDERFYNWYD** - bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig £4.217 miliwn i adnewyddu Canolfan Nova Prestatyn.

## **7 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2013/14**

Roedd copi o adroddiad y Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol, ar Adolygiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2013/14, wedi ei gylchredeg cyn y cyfarfod.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd B.A. Smith a'r Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio. Eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol o'i berfformiad erbyn 31 Hydref ac felly bod angen penderfyniad i gymeradwyo'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013-14 drafft, Atodiad I.

Roedd Cynllun Corfforaethol 2012/17 y Cyngor yn nodi cyfeiriad strategol y Cyngor a'i flaenoriaethau dros gyfnod o bum mlynedd. Mae manylion bwriad y Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau wedi eu nodi yn y Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ac yn Nogfen Darparu Blynyddol y Cynllun Corfforaethol, ac mae cyfres o Gytundebau Canlyniad wedi eu cytuno arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn darparu gwerthusiad ôl-syllol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau yma yn ystod 2013-14, ac yn dangos p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei rwymedigaeth gogyfer â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn llwyddiannus ai peidio.

Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi datblygu'r adroddiad mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae'r wybodaeth perfformiad yn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau a'i thynnu o system rheoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad cyn cyflwyno'r adroddiad ger bron y Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

Mae'r risg o gael adroddiadau negyddol sylweddol gan reolyddion allanol wedi ei nodi yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Byddai methu cyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad terfyn o 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol ar gyfer enw da'r Cyngor.

Roedd y Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), a oedd yn cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E.A. Jones at Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a gofynnodd am sicrwydd y byddai dyraniad o 26 hectar o dir cyflogaeth yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth, ac nid yn cael ei gadw i'w werthu neu i adeiladu tai arno yn y dyfodol. Eglurodd y Cynghorydd B.A. Smith fod y tir dan sylw wedi ei ddynodi fel tir cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol, a oedd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor, ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo unrhyw newid.

Cadarnhaodd y Cynghorydd H.H. Evans fod trafodaethau ar y gweill rhwng swyddogion a datblygwyr hyd nes caiff Cais Cynllunio mewn perthynas â'r safle

Bodelwyddan ei gyflwyno. Eglurodd fod cyllid gan y Bwrdd Uchelgais, sy'n canolbwyntio ar safleoedd cyflogaeth, wedi ei ddyrannu i ymchwilio i feysydd allweddol ar draws y Sir. Awgrymodd y Cynghorydd E.W. Williams y gallai'r tir cyflogaeth fod yn fater i'w ystyried gan Grŵp Gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod y tir cyflogaeth ym Modelwyddan wedi ei nodi'n glir yn y Cynllun Datblygu Lleol, ac y byddai'n cael ei nodi yn y Cais Cynllunio perthnasol. Fodd bynnag, awgrymodd fod y tir cyflogaeth, a'r gwaith priodol sydd i'w wneud, yn fater i'w ystyried o bosibl gan y Pwyllgor Archwilio.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Sesiwn Frifio Cyngor, lle awgrymwyd y byddai Sir Ddinbych yn parhau i ymrwymo i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol ac y byddai hyn yn cael ei ddatblygu os caiff ei gadarnhau. Esboniodd fod yn rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013-14, a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb yn effeithio ar berfformiad ac y byddai'r rhain yn gofyn am ymarfer mapio yn erbyn materion perfformiad. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod y meysydd sy'n profi gostyngiad mewn lefelau perfformiad, o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb, yn cael eu nodi'n glir, ac y byddai'r Cynllun Gwella yn cael ei adolygu i adlewyrchu penderfyniadau o'r fath.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies, cadarnhaodd y Cynghorydd B.A. Smith fod darparu cyrbau isel wedi ei nodi fel blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, i'w weithredu dros gyfnod o bum mlynedd. Eglurodd y Cynghorydd D.I. Smith fod arolwg yn ymwneud â chyrbau isel yn cael ei gynnal ac y byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i'r Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H.H. Evans at y Seilwaith Cludiant a chadarnhaodd fod agweddau ar yr Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi ei dynnu'n ôl oherwydd diffyg adnoddau, gyda'r ffocws rŵan ar feysydd o effaith. Esboniodd fod TAITH wedi ei ganoli a bod penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu seilwaith bellach yn fater i Lywodraeth Cymru.

Cytunodd y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio i adolygu cywirdeb byrfoddau a ddefnyddir yn fersiwn Gymraeg y ddogfen Adolygiad Perfformiad Blynyddol.

Yn dilyn trafodaeth bellach, ac o'i roi i bleidlais, cytunwyd â'r argymhelliad yn yr adroddiad:-

34 o blaid ac 1 yn erbyn.

**PENDERFYNWYD** - bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013-14 drafft er mwyn ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2014.

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cadarnhaodd y Pwyllgor Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cynfor Sir yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod copi diwygiedig o'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau. Cadarnhaodd y bydd Gweithdai Cyllideb yn cael eu cynnal ar 8, 13 a 20 Hydref 2014 (27 Hydref yn ddyddiad posibl hefyd). Ar 9 Ragfyr 2014 bydd y Cyngor yn ystyried adroddiadau ar y gyllideb, Cytundeb PFI Neuadd y Sir ac adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol a'r Mannau Pleidleisio.

Eglurodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill fod Adroddiad Pennu Treth y Cyngor, a drefnwyd ar gyfer 3 Chwefror 2015, yn cael ei gyflwyno ar 24 Chwefror 2015.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts ynglŷn â'r angen am bolisi cydlynol ynglŷn â chyfathrebu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses gyllidebol, esboniodd y Prif Weithredwr y gallai'r mater hwn gael ei drafod yn y Gweithdai Cyllideb.

Ymatebodd y Cynghorydd R.L. Feeley i gwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies ac eglurodd fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Sir Ddinbych a'r Bwrdd Iechyd. Cadarnhaodd y byddai dyddiad yn cael ei drefnu er mwyn i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd annerch y Cyngor. Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Chamberlain-Jones y byddai'r Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i ymateb i faterion a godwyd gan yr Aelodau.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Butterfield i gynnwys eitem ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar uno gwirfoddol arfaethedig Sir Ddinbych a Chyngor Conwy. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod trefniadau'n cael eu gwneud i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Tachwedd 2014 i drafod yr uno arfaethedig, cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad o ddiddordeb.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd E.W. Williams ynghylch nad yw nifer y pleidleisiau a gofnodwyd ar y system bleidleisio electronig bob tro yn adlewyrchu nifer y Cynghorwyr sy'n bresennol, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y system bleidleisio yn cael ei gwirio cyn dechrau pob cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

*Daeth y Cyfarfod i ben am 12.40pm.*